

Ffocws ar Ganlyniadau Cymaradwy

Yn ein llythyr i ysgolion a cholegau ym mis Mehefin, gwnaethom gyflwyno ein dull rheoleiddio ar gyfer cyfres arholiadau'r haf. Gwnaethom sôn am y dull sefydledig o gynnal safonau a sicrhau tegwch pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, a elwir yn 'ganlyniadau cymaradwy'.

Beth yw'r dull canlyniadau cymaradwy?

Mae rheoleiddwyr cymwysterau'r DU wedi defnyddio'r dull canlyniadau cymaradwy am sawl blwyddyn fel y brif ffordd o atal graddau rhag codi dros amser. Fodd bynnag, prif nod y dull yw diogelu myfyrwyr er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais annheg fel y cyntaf i sefyll arholiadau newydd. Mae hyn yn golygu, os bydd y cohort cenedlaethol (hynny yw, pob myfyriwr sy'n sefyll arholiad) yn debyg i gohort y llynedd, y byddwn yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod yn debyg eleni.

Mae'r dull canlyniadau cymaradwy hwn yn ddull sydd wedi profi ei werth, ac mae byrddau arholi wedi ei ddefnyddio'n flaenorol i gynnal safonau pan fydd cymhwyster yn newid.

Os nad yw cohort wedi newid lawer, ni fyddem yn disgwyl i ganlyniadau newid lawer chwaith. Pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, mae'n arfer sefydledig blaenoriaethu canlyniadau cymaradwy dros berfformiad cymaradwy. Pe byddai'r dyfarniadau yn seiliedig ar berfformiad, gallai myfyrwyr fod o dan anfantais am eu bod yn anghyfarwydd â'r arholiadau newydd ac yn debygol o ennill marciau is. O dan y dull cymaradwy, dylai'r myfyrwyr cyntaf i sefyll yr arholiadau newydd hyn ennill graddau y byddent wedi'u hennill pe baent wedi sefyll yr hen arholiadau.

Yn y bôn, mae'r dull canlyniadau cymaradwy yn gwneud iawn am ostyngiad bach tebygol mewn perfformiad pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno. Defnyddiwyd y dull hwn yn llwyddiannus yr haf diwethaf wrth ddyfarnu'r cymwysterau Safon UG newydd.

Ond sut rydych yn sicrhau y bydd y myfyrwyr cyntaf i sefyll yr arholiadau newydd hyn yn ennill graddau y byddent wedi'u hennill pe baent wedi sefyll yr hen arholiadau?

Pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, mae myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ennill marciau is na myfyrwyr a safodd yr hen arholiadau, lle'r oeddent yn fwy cyfarwydd â nhw. Yn Saesneg, gelwir y patrwm newid hwn a achosir gan ddiwygiadau i'r broses asesu yn 'sawtooth effect'.

Yn benodol, pan fydd asesiadau lle mae llawer yn y fantol yn cael eu diwygio, yn aml ceir effaith andwyol ar berfformiad yn yr asesiadau hynny, a gwelir perfformiad gwell dros amser wrth i fyfyrwyr ac athrawon ddod yn gyfarwydd â'r rhai newydd.

A fydd hyn yn golygu y bydd canlyniadau yn edrych yr un fath eleni â rhai y llynedd?

Os bydd y cohort sy'n sefyll yr arholiad eleni yn debyg i gohort y llynedd, byddwn yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod yn debyg eleni. Bydd hyn yn wir mewn rhai pynciau.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod natur y cohort sy'n sefyll yr arholiadau mewn sawl pwnc wedi newid yn sylweddol. Er enghraifft, mae ysgolion wedi cofrestru mwy na 21,000 o fyfyrwyr Blwyddyn 10 ar gyfer yr arholiad TGAU Saesneg Iaith. Yn yr achosion hyn, nid

Gair i gloi ...

Mae'r dull canlyniadau cymaradwy yn cael ei ddefnyddio ar lefel y cohort cyfan, a bydd yn sicrhau y caiff amrywioldeb yn y canlyniadau ar lefel genedlaethol ei gyfyngu pan fo'r cohort yn debyg i gohort blynyddoedd blaenorol.

Hyd yn oed pan na fydd newidiadau i gymwysterau, gall ysgolion a cholegau unigol weld rhywfaint o

Yn ymarferol, mae angen i fyrddau arholi addasu ffiniau graddau oherwydd y 'sawtooth effect'. Pan fydd ffiniau graddau yn cael eu pennu, caiff tystiolaeth ei hystyried i weld a oes angen addasu i ganiatáu ar gyfer yr effaith hon. Pan geir tystiolaeth sy'n cefnogi presenoldeb 'sawtooth effect', mae ffiniau graddau yn debygol o gael eu gostwng er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad ym mherfformiad y myfyrwyr hynny sy'n sefyll arholiadau newydd.

Er mwyn nodi a mesur y 'sawtooth effect', bydd CBAC yn gwneud rhagor o waith modelu a dadansoddi ystadegol i helpu uwch arholwyr i farnu gwaith myfyrwyr ar ffiniau gradd allweddol yn ystod y broses ddyfarnu.

ydyd yn disgwyl i'r canlyniadau cyffredinol fod yn debyg i'r rhai y llynedd.

O ystyried y newidiadau hyn, dylid trin canlyniadau'r haf hwn yn ofalus. Er mwyn bod yn glir, mae'n hanfodol cymharu canlyniadau tebyg. Rydym yn canolbwyntio ar fyfyrwyr 16 oed, sef y mwyafrif llethol o blith y rhain sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU. Pan fyddwn yn gwneud unrhyw gymariaethau, byddant ar sail cymharu canlyniadau myfyrwyr 16 oed o flwyddyn i flwyddyn.


amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn yn eu canlyniadau. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywiad o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol. Gall hyn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys strategaeth gofrestru newydd neu ffordd newydd o gyflwyno cymhwyster ac, ar gyfer cymwysterau newydd, bod yn gyfarwydd â'r arholiadau.

Rhagor o wybodaeth:

www.cymwysteraucymru.org

E: yholiadau@cymwysteraucymru.org

Ff: 0333 077 2701

 @cymwysterau_cym